

Tocyn Darllen

Er mwyn gwarchod dogfennau, rhaid i chi gael tocyn darllen er mwyn gweld pob dogfen yn unrhyw un o'r Rhwydwaith Ymchwil Archifdai Sirol. Caiff manylion ymchwilwyr awdurdodedig eu cadw'n ganolog.

Efallai y bydd yr amodau hyn yn wahanol mewn siroedd eraill.

Sut ydw i'n cael tocyn?

Llenwi ffurflen syml yn yr archifdy gyda'ch enw, cyfeiriad, rhif ffôn a llofnod, a dangos un neu fwy o'r dogfennau hyn er mwyn cadarnhau eich enw, cyfeiriad a llofnod:

- trwydded yrru
- ffurflen UB40
- llyfr cynilion Swyddfa'r Post
- cerdyn aelodaeth AA/RAC
- cerdyn banc / credyd
- llyfr pensiwn / budd-dal
- adroddiad banc / llyfr cymdeithas adeiladu
- pasbort
- bil nwy, trydan neu ffôn

Byddwch yn cael y tocyn yn syth ac mae am ddim. Bydd y tocyn yn ddilys am 4 blynedd.

Sut mae defnyddio'r tocyn?

Dylech lenwi'r gofrestr wrth ddod i mewn i'r archifdy, gan roi rhif eich tocyn. Cadarnheir eich llofnod a bydd y tocyn yn cael ei gadw y tu ôl i'r cownter tan ar ôl i chi ddychwelyd y dogfennau ac iddynt gael eu harchwilio. Gadewch ddigon o amser.

Beth ga i ei weld heb docyn?

Popeth sydd ar silffoedd agored, microffilm a microfiche, a mapiau ordnans (6 modfedd a 25 modfedd).

Gallwch lenwi ffurflen gofrestru dros dro er mwyn gweld papurau newydd. Bydd hwn yn ddilys am un diwrnod yng Ngwynedd yn unig.

Beth am ymwelwyr tramor?

Bydd rhaid iddynt ddangos tystiolaeth i brofi pwy ydynt a'u cyfeiriad parhaol. Byddwn yn gofyn hefyd am eu cyfeiriad dros dro a'r dyddiad y byddant yn gadael.

Beth am ddisgyblion ysgol?

Gall disgyblion lenwi ffurflen arbennig a chael eu hysgol i dystio ei bod yn gywir a'i stampio. Manylion llawn: (01286) 679091 /

AddysgArchifauacAmgueddfeydd@gwynedd.gov.uk

Beth os ydw i'n colli'r tocyn neu os caiff ei ddwyn?

Rhowch wybod i ni'n syth; mae'r tocyn yn bwysig a gallech fod yn gyfrifol am unrhyw gamddefnydd ohono. Dim ond chi ddylai ddefnyddio eich tocyn.